CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: clerc@cyngorcymunedllanengan.cymru
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Ionawr 10fed, 2019

Annwyl Aelod,

Gwysir chi fod yn bresennol yng Nghyfarfod Misol y Cyngor **nos Fercher, Ionawr 16eg, 2019** yng Nghanolfan Llanengan am saith o'r gloch.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)
4. Cadarnhau Cofnodion - Rhagfyr 12fed, 2018 ac Ionawr 9fed, 2019
5. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhestr drosodd)
6. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**:
   i) 5a) Toiledau Cyhoeddus
   ii) 5c) 10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru: vi) Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref
   iii) 5d) 13. Gohebiaeth: ch) Menter Môn – Wi-Fi Cymunedol Cyhoeddus
7. **Mynwent** – Mainc Goffa
8. **Caeau Chwarae –** Offer newydd Cae Chwarae Aber-soch; Trac Beiciau Cae Chwarae Mynytho
9. **Cyfrifon –** Archwiliad 2017 – 2018 BDO**;** Mainc Sarn Bach; Tâl Aelodaeth Cymdeithas y Clercod; Codiad Cyflog y Clerc; Mainc Sarn Bach
10. **Materion Cynllunio** – Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth; Sied Amaethyddol Cim, Bwlchtocyn
11. **Materion Priffyrdd a Bwrdeistrefol** – Y Fach – Cyfyngiadau Parcio; Biniau Baw Cŵn
12. **Materion Hawliau Tramwy** – Torri'r Llwybrau
13. **Gohebiaeth**:
    a) ***Un Llais Cymru (ULlC)*** – Bwletin mis Ionawr;
    b)
    c)
    ch)
14. Dyfarniadau Cynllunio
15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau

16. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Chwefror 9fed, 2019

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU CYNLLUNIO I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD MIS IONAWR (16eg)

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C18/1079/39/AM	Cais amlinellol i godi tŷ a chreu mynedfa gerbydol (cynllun diwygiedig o Ganiatâd 8810B) – **Plot ger Arwelfa, Lôn Traeth, Aber-soch**
2	C18/1149/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Dyluniad diwgyiedig i gwt glan môr (gostwng uchder crib y to) yn dilyn gwrthod cais i gadw datblygiad di-ganiatâd a adeiladwyd yn dilyn caniatáu cais C18/0048/39/LL – **Cwt Glan Môr 15, Borth Fawr, Aber-soch**
3	C18/1191/39/AM	Datblygiad o bump llety cartref gwyliau preswyl deulawr – **Y Glyn, Lôn Garmon, Aber-soch**
4	C19/0025/39/LL	Newid defnydd adeilad amaethyddol i ganiatáu ei ddefnyddio fel adeilad amaethyddol a storio offer o safle glampio dros y gaeaf, ynghyd â chreu llawr mezzanine ar gyfer ardal storio – **Ty'n y Cae, Llangian**

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Ionawr 9fed, 2019 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Is-gadeirydd), Angharad Correia-Martins, G. Ian Evans, Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cynghorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Aelodau Lleol – Sylwebwyr)

YMDDIHEURIADAU

Alun Jones (Cadeirydd)

Croesawodd yr Is-gadeirydd bawb i'r cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd, ynghyd â dymuno Blwyddyn Newydd Dda.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorwyr a ganlyn fuddiant personol:

- Edward O. Griffith a Catherine Ll. Morris yng ngheisiadau cynllunio C18/1085/39/LL - Diwygio Cytundeb 106 sy'n cyfyngu defnydd yr unedau gwyliau i gyfnod uchafswm o dri mis yn The Stables and Granary, Ysgubor Hen, Cilan a C18/1191/39/AM Datblygiad o bum llety cartref gwyliau preswyl deulawr yn Y Glyn, Lôn Garmon, Aber-soch, oherwydd eu bod yn berchnogion llety gwyliau eu hunain
- John Gwilym Jones a Dylan Llwyd yng nghais cynllunio C18/1085/39/LL - Dymchwel allandy ac adeiladu dau estyniad, ynghyd ag addasiadau mewnol ac allanol - Fferm Corn, Cilan, oherwydd eu bod yn gymdogion.

Gadawant y cyfarfod pan drafodwyd yr eitemau.

2. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C18/0967/39/LL **Cais Diwygiedig -** Adeiladu cwt glan y môr newydd yn lle'r un presennol – Cwt Glan y Môr Rhif 2, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd nad yw'r un maint â'r gwreiddiol – unllawr. Mae'r bwriad o osod decing (blaen a chefn) yn ei ymestyn ymhellach ac nid yw'r drysau dur yn gweddu â'r cytiau o'i amgylch. Mynegwyd y gallai'r decing cefn fod yn gais o ymestyn y cwt ymhellach yn y dyfodol. Ychwanegwyd fod yr holl ymestyn yn difetha'r dwnan a'i bioamrywiaeth.**
Ailadroddir y sylwadau a gyflwynwyd â cheisiadau cyffelyb blaenorol a gofynnir, unwaith yn rhagor, am ymateb iddynt gan na dderbyniwyd un, sef mae gormod o newid i'r cytiau, h.y. ni chadwa'r un cais at y maint gwreiddiol ac amrywia'r gwneuthuriad yn hytrach na pharhau'n 'gytiau pren glan môr cyffredin' a welir ar

	draethau amlwg a phoblogaidd eraill trwy Wledydd Prydain. Ychwanegwyd ei bod yn gystadleuaeth o gael cwt mwy a gwell na'r un drws nesaf. Hefyd, awgrymwyd y dylid rhoi amod cadwraeth arnynt – sylw a wnaed ers blynyddoedd ond, ni dderbyniwyd ymateb i hynny ychwaith.
C18/0986/39/LL	Cais rhannol ôl-weithredol i ymgymryd â gwaith peirianyddol er sefydlu llawr creiddgaled i lecyn storio cychod, ynghyd â thirlunio bwriadedig – Tyddyn Talgoch Uchaf Campsite, Bwlchtocyn – **Cefnogir**
C18/1079/39/AM	Cais amlinellol i godi tŷ a chreu mynedfa gerbydol (cynllun diwygiedig o Ganiatâd 8810B) – Plot ger Arwelfa, Lôn Traeth, Aber-soch **– Nid oes manylion â'r cais i fedru rhoi sylwadau**
C18/1085/39/LL	Dymchwel allandy ac adeiladu dau estyniad, ynghyd ag addasiadau mewnol ac allanol – Fferm Corn, Cilan **– Cefnogir [Datgan Diddordeb – JGJ a DLl]**
C18/1112/39/HY	Gosod arwydd ffasgia – Present Thoughts, 3-4 Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/1118/39/LL	Adeiladu tŷ annedd (dyluniad diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd yng nghais 2/19/69A) - Tir ger Gilfach Goed, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a fuasai'n gorlenwi safle cyfyng amlwg mewn AHNE a thynnu sylw o bob ffordd fynediad i mewn i'r pentref. Mae'n ddyluniad anaddas sydd gryn dipyn uwch (tri llawr o gymharu ag un) na'r dyluniad a ganiatawyd yn wreiddiol – buasai'n rhaid cloddio'n ddwfn i'r graig ar gyfer ei sylfeini. Mynegwyd, hefyd, bod gormod o wydr ynddo a fuasai'n amharu ar breifatrwydd cymdogion**
C18/1119/39/LL	Gosod dau danc storio LPG tanddaearol (4000 litr) – The Warren, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/1120/39/LL	Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer ar ddrychiad cefn y caffi/bwyty – The Warren, Aber-soch **– Cefnogir**
C18/1127/39/LL	Dymchwel modurdy presennol a chodi anecs ar gyfer defnydd is-wasanaethol i Anhywel – Anhywel, Aber-soch **– Cefnogir, cyn belled ag y rhoddir amod ar yr anecs na chaiff ei werthu ar wahân**
C18/1141/39/LL	Gosod dwy ffenestr gromen cefn – 68 Cae Du, Aber-soch **– Cefnogir, cyn belled ag y rhoddir amod y gosodir gwydr barugog (*frosted*) yn y ffenestri gan mai ystafelloedd *en-suite* ydynt**
C18/1149/39/LL	Dyluniad diwygiedig i gwt glan môr (gostwng uchder crib y to) yn dilyn gwrthod cais i gadw datblygiad di-ganiatâd a adeiladwyd yn dilyn caniatáu cais C18/0048/39/LL – Cwt Glan Môr 15, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd na chadwyd at y cynllun gwreiddiol; cefnogwyd hwnnw ar yr amod y cedwid at faint y cwt gwreiddiol. Cedwir at yr un sylwadau a gyflwynwyd ar y ddau gais blaenorol, ynghyd â rhai cyffelyb i weddill y cytiau ar Borth Fawr. Penderfynwyd anfon llythyr i fynegi pryder am yr holl newidiadau**
C18/1163/39/RC	Diwygio Cytundeb 106 sy'n cyfyngu defnydd yr unedau gwyliau i gyfnod uchafswm o dri mis – The Stables and Granary, Ysgubor Hen, Cilan **– Gwrthwynebir oherwydd gosodir amod am reswm a derbyniodd yr ymgeisydd o [Datgan Diddordeb – EOG a CLlM]**
C18/1189/39/LL	Addasiadau ac estyniadau i'r eiddo i gynnwys codi a newid ffurf y to i wella gofod ystafelloedd llawr cyntaf, gosod balconi blaen, estyniadau cefn a chodi modurdy dwbl – Carrog, Aber-soch **–**

	Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad ac y dylid cadw at uchder presennol y tŷ. Buasai'r cynnydd o 0.9 metr yn amharu ar Lwybr yr Arfordir sy'n mynd heibio'r eiddo
C18/1191/39/AM	Datblygiad o bum llety cartref gwyliau preswyl deulawr – Y Glyn, Lôn Garmon, Aber-soch – **Penderfynwyd gohirio ei drafod tan gyfarfod yr wythnos nesaf [Datgan Diddordeb – EOG a CLlM]**
C18/1193/39/LL	Estyniad modurdy cysylltiedig – 11 Afon y Felin, Lôn Garmon, Aber-soch **– Cefnogir, cyn belled ag y rhoddir amod mai modurdy'n unig fydd o, gan fod ei faint bron gymaint â'r tŷ**
C18/1199/39/LL	Estyniad to gwastad blaen a chefn, feranda a mynedfa gerbydol newydd – Sŵn y Môr, Bwlchtocyn **– Gwrthwynebir oherwydd buasai to llechi crib yn gweddu'n well i'r tŷ 'del'**

3. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C18/0784/39/LL	Dymchwel cwt glan y môr presennol a chodi un newydd yn ei le **–** Cwt Glan y Môr 43, Borth Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0890/39/LL	Adeiladu adeilad i storio peiriannau contractwr amaethyddol – Erw Deg, Cilan **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0957/39/LL	Estyniad unllawr cefn a gosod boiler allanol – Honeysuckle Cottage, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau**
C18/1005/39/LL	Dymchwel modurdy ac estyniad cefn a chodi estyniad deulawr ochr i gynnwys modurdy integredig ac estyniad unllawr cefn – Coed yr Afon, Aber-soch **– Gwrthodwyd**
C18/1021/39/LL	Dymchwel estyniadau unllawr blaen a chefn presennol a chodi rhai newydd yn eu lle **–** 6 Pen y Bryn, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C18/1046/39/LL	Gosod balconi blaen, adeiladu estyniad unllawr cefn â balconi uwchben ac addasiadau i gynnwys gosod nen-oleuadau a newidiadau i orffeniad allanol y tŷ **–** The Homestead, Lôn Hawen, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/1048/39/LL	Adeiladu estyniad yn cynnwys codi uchder y to ac addasiadau – Bryn Rhedyn, Bwlchtocyn **– Caniatawyd ag amodau**
C18/1090/39/DA	Diwygiad ansylweddol i Ganiatâd C16/0376/39/LL er dileu'r orendy o'r bwriad a chreu gosodiad symlach ar gyfer y modurdy – 11 Afon y Felin, Aber-soch **– Gwrthodwyd**

4. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Ionawr (Rh/S 002202) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Casglwr Trethi – £5.14 (Rh/S 002203 – Talu Wrth Ennill)
b) Nimbus and Test Strike Lightning Protection Ltd. – £447.60 (Rh/S 002200 – Prawf Diogelwch ac Atgyweirio Corn Tanrallt)
c) E-on – £46.82 (D/U – Trydan y Toiledau)

Derbyniadau

a) Toiledau – £9.30 (Tâl Mynediad – £5.10 a £4.20)
b) G.D. Roberts a'i Fab – £270.00 (Bedd Newydd)
c) Llechen Llŷn – £160.00 (Carreg Fedd)

15. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Ionawr 16eg, 2019 am saith o'r gloch